=GWYTHERIN
Enwau'r Caeau sydd yn cydfynd â ffermdai Gwytherin
fel y maent yn ymddangos ar Fap y Degwm, tua 1842

**Pennant** (Hen enw ar Tŷ Draw a Pennant Uchaf): Homestead and garden, Ddol Heinws, Perthi, Erw y Geylan, Erw y Geulan Bach, Land along the river, Bryn Cawnog, Bryn Cawnog Pella, Ffridd Waen Issaf, Nant, Ffridd Waen Uchaf, Ffridd Lwyd, Swch Waen, Ty'n y Rhedyn Uchaf, Ffridd y Fotty, Ddol y Fotty, Mount, Hafod Uchaf, Ffridd Bach Issaf, Buarth, Ffridd Bach Uchaf, Ffridd Waen Bach, Cae Bach, Bryn Hernog, Cae tan y Ffordd, Pen cae tan y ffordd, Buarth y twll, Rhewog.
Maint y fferm: 228a, 1r, 34p. Degwm: £6. 5s.6c.

Mae'r enwau Ffrith y Foty a Ddôl y Foty yn cyfeirio at dyddyn bach o'r enw Foty ymhellach i fynu'r afon sydd wedi ei ddymchwel. Mae corlannau defaid wedi eu hadeiladu ar y safle. Mae tri tŷ wedi bod ar fuarth Pennant Uchaf erioed ac mae dau ohonnynt yn dal i fod. Pennant Uchaf oedd y cyntaf, yna fe adeiladwyd tŷ newydd a galw hwnw yn Tŷ Draw. Yna adeiladwyd y trydydd tŷ a galw hwnnw yn Tŷ Draw gan roi yr enw Pennant Uchaf ar yr ail dŷ. Mae'r hen dŷ gwreiddiol bellach wedi ei ddymchwel.
Yn 1841 roedd Pennant/Tŷ Draw yn perthyn i William Hanmer Esq. a'r tenant oedd David Jones. Roedd David Jones wedi priodi â Catherine Roberts ar 21-12-1787 ac wedi cael 15 o blant. Y mab Thomas bu'n ffarmio yno ar ôl ei dad. Aeth y teulu oddiyma i Ty'n Llan yn ystod yr 1870au. Disgynyddion i Samuel a Mary Williams, Llwyn Saint, ddaeth yma ar eu holau ac mae'r teulu yna yma hyd heddiw.

**Bryn Tirion:** Homestead and garden, Cae cefn ty, Cae talcen isaf, Cae o flaen drws, Cae talcen uchaf, Ffridd y ffordd, Ffridd Uchaf Caledfryn.
Maint y fferm: 21a, 2r, 15p. Degwm: 10s.

Arferai Ffrith Uchaf Caledfryn berthyn i dyddyn o'r enw Caledfryn sydd bellach wedi ei ddymchwel. Mae tŷ Bryn Tirion hefyd wedi mynd ers tro. Perthynai i dir Nant yr Henfaes bellach.
Yn 1841 roedd Bryn Tirion yn perthyn i Edward Griffiths, Bangor, a'r tenant oedd David Roberts, a oedd y byw yno gyda'i wraig Alice a'r plant Elizabeth a David. Aethant oddiyma i Dy'n y Ffynnon ym mhentref Gwytherin.

**Ffrith y plwyf (**Yn perthyn i dlodion plwyf Gwytherin): Roedd rhent Ffridd y plwyf yn cael ei ddefnyddio i gynnal y tlodion, ond er hynny roedd cyfran ohonno yn gorfod mynd i dalu'r degwm i'r rheithor. Yn 1841 y tenant oedd Edward Roberts. Arferai'r ffrith yma hefyd berthyn i dyddyn Caledfryn. Mae'r ffrith yn perthyn i dir Nant yr Henfaes bellach.
Maint y ffrith: 13 acer. Dwgwm: 4s. 3c

**Nant yr Henfaes:** Homestead and garden**,** Llechwedd, Cae Bach, Cae tan y ty, Cae y bryn, Nant, Ffridd y Gors, Ffridd Bach, Ffridd Newydd.
Maint y fferm: 28a. 2r. 5p. Degwm £1. 1s. 0c

Dywedir mai ystyr yr enw yw "hen faes y frwydr", ac yn uwch i fynu'r llechwedd mae fferm Moelogan, lle canent ar ôl y Fuddugoliaeth.
Yn 1841 y perchennog oedd John Williams, Plas yn Blaenau, a'r tenant oedd Edward Roberts a oedd yn byw yno gyda'i wraig Catherine a'u 9 plentyn.

**Graig Bach:** Homestead and garden, Ffridd y cribinia, Y buarth, Cae flaen drws, Ffridd newydd, Ffridd y gors, Bank y ffynnon, Fron Bach, Cae tan y ty, Cae pella.
Maint y fferm: 28a. 2r. 13p. Degwm: £1.

Yn 1841 John Hughes oedd piau'r lle, fel ei dad o'i flaen, ac roedd yn byw yno gyda'i wraig Jane a llu o blant, yn eu mysg: Margaret, Robert, Lettuce, Hannah, Gomer, Japheth a David.

Aethent oddiyma yn ystod y 1860au i Waen Ucha, Llanfair T.H. Y Wyniaid ddaeth yno nesaf ac mae disgynyddion i'r teulu yno hyd heddiw.
Yr ail dŷ yw'r un presennol, yn sefyll ar draws safle'r hen adeiladau; dyna pam nad yw 'Cae flaen drws' o flaen drws y tŷ newydd! Gwneuthpwyd y tŷ gwreiddiol yn ystabl ac yna'n feudu bach ychwanegol i'r beudy cyntaf. Mae'r hen adeiladau bellach wedi eu dymchwel.
Mae'r ffin rhwng plwyf Gwytherin a Phandy Tudur yn rhedeg ar hyd gwaelod y Fronnydd, Cae dan tŷ a Cae pellaf (Cae glas erbyn heddiw).

**Bwlch Gwynt**: Homestead and garden, Cae tan y ty, Cae bach, Y graig fawr, Ffridd uchaf, Ffridd ganol, Ffridd isaf.
Maint y fferm: 23a. 2r. 3p. Degwm: 13 swllt.

Y perchennog yn 1841 oedd Jane Davies, "spinster", o Langernyw. Y deiliad oedd Robert Williams, ond William Thomas oedd yn talu'r dreth. Dengys cyfrifiad 1871 bod cymaint a thri teulu yn rhannu'r tŷ. Nis oes dim o'r tŷ na'r adeiladau ar ôl bellach. Ei safle oedd rhwng Graig Bach a'r mynydd.

**Pen y Fron**: Homestead, garden, etc., Ffridd Bach, Ffridd y Ffynnon, Ffridd canol, Cae isaf, Ffridd tan y ty, Cae Bach, Ffridd oddian y ty.
Maint y fferm: 16a. 1r. 32p. Degwm: 12 swllt.

Perchennog y lle yn 1841 oedd John Evans, Henllan. Y deiliaid oedd y gŵr gweddw Robert Williams a oedd yn byw yno gyda'i ferched Mary a Margaret. Roedd ei wraig wedi marw ym Mhen y Fron yn 1839. Daethent yno o Nant yr Henfaes ac fe'u aethent oddiyno i'r Gors yn ystod yr 1850au.

**Y Fron Rhedyn** (Bron Rhedyn): Homestead and garden, Swch, Cae tan y ty, Erw bach, Cae ceirch, Cae haidd, Ffridd isaf bach, Ffridd isaf y gornel.
Maint y fferm: 7a. 2r. 9p. Degwm: 6 swllt.

Yn ôl Map y Degwm, Henry Davies oedd piau Bron Rhedyn. Roedd yn byw yno gyda'i wraig Dorothy a'u merched Linda a Sidney. Priododd Sydney a Robert Roberts ac y nhw a'u plant fu'n byw yno wedyn. Aeth y teulu oddiyma yn 1880 i fyw ger Llandudno. Mae hwn yn un o'r tai sydd yn dal i edrych yr un fath hyd heddiw.

**Nant y Buarth**: Cottage and croft.
Maint y lle: 1 rood, 14 perches. Degwm: 4c.

Dengys Map y Degwm mai perchennog Nant y Buarth oedd William Jones, a oedd hefyd yn mynychu'r lle gyda'i wraig Elizabeth, a Ruth a Margaret. Nid oes dim ar ôl o'r lle erbyn heddiw. Arferai sefyll ar y chwith ar waelod allt Bron Rhedyn (wrth i chi sefyll a'ch cefn am Bronrhedyn).

**Ty Newydd** (Tŷ Newydd Isa): Premises, Garden etc., Ffridd porfa, Y buarth, Ffridd pella, Y fron, Ffridd o dan pen y Gors, Ffridd o dan pen y gors uchaf, Ffridd bach, Y ffridd las, Waen pella, Waen tan yr heol, Cae main, Cae mawr, Cae eithin, Pentre bach, Fron y griech, Cae tan y weirglodd.
Maint y fferm: 91a. 1r. 9p. Degwm: £4. 4s. 0c

Robert Wynne oedd perchennog Tŷ Newydd Isa yn 1841 ac y fo oedd yn byw yno gyda'i wraig Eleanor. Mae aelodau o'r teulu yna hyd heddiw. Mae'r tŷ gwreiddiol bellach yn rhan o'r adeiladau ffarm, gyda'r tŷ newydd a adeiladwyd tua 1869 yn sefyll wrth ochr y ffordd.

**Bron Llan**: Homestead, Cae dan ty, Cae bach, Fron Felen, Ffrith Bothwell, Fron Felen Uchaf, Ffridd drain duon, Ffridd newydd, Ffridd y bank, Ffridd goch, Cae cefn ty, Ffridd bach, Nant uchaf.
Maint y fferm: 53a. 3r. 17p. Degwm: £1. 12s. 0c.

Mae Bron llan yn ffarm hynafol iawn. Adeg Map y Degwn roedd y lle yn perthyn i Susannah Kay o Ddinbych. Y deiliad oedd Abner Lloyd a oedd yn byw yno gyda'i deulu a oedd yn hanu o Gwm Bychan, Harlech. Mae'r tŷ a'r adeiladau wedi eu dymchwel ers 1987 a'r cerrig wedi eu defnyddio yn sylfaen i sied wartheg. Ond o leiaf mae'r enw 'Bron Llan' yn parhau wrth gyfeirio at y sied, y caeau a'r hawliau ar y mynydd.

**Hafod:** Homestead and garden, Werglodd tan ty, Cae ffynnon, Maes mawr, Bryn y Golcerth, Buarth bach, Y banting goch, Y banting goch ucha, Y cefn coch, Y buarth mawr, Maes glas, Cae bws bach, Cae bws mawr, Cae tu uchaf y ty, Cefn coch, Bryn y dadlaw, Cae y bont, Cae eithin, Cae eithin uchaf, Cefn coch mawr, Cefn coch bach, ? bough in cae bont, Y ddol, ? felin, Wood in ditto, Cae bach, Ddol tu hwnt i'r ffordd.
Maint y fferm: 173a. 2r. 30p. Degwm: £8. 18s. 0c.

Mae'r Hafod hefyd yn un o ffermdai hynafol Gwytherin. Dengys Map y Degwm bod Hafod yn perthyn i Sophia Jocelyn, spinster, of Bath. Y gŵr gweddw Thomas Jones oedd y deiliad ac yn byw yma gyda'i fam a'i ddwy ferch fach. Bu aelodau o'r teulu yma hyd at canol y 1800au.

**Ty'n y Caeau:** Homestead, Cae glas, Cae y popty, Cae llydan, Cae domes, Clwt y llorian, Y ddol sound, Woodland, Cae yr boat, Cae pella, Ffridd nesaf y ffordd, Ffridd nesaf y ffordd nail pwgon?, Ffridd nesaf y ffordd isaf, Ffridd nesaf y ffordd ganol, Ffridd nesaf y ffordd uchaf, Clwt cae coed and fron, Rough in clwt cae coed and fron.
Maint y fferm: 59a. 1r. 18p..Degwm: £3. 6s. 0c.

Thomas Hobson o Lerpwl oedd perchennog Ty'n y Caeau yn 1841 a'r deiliad oedd Robert Williams. Roedd ei deulu wedi bod yn ffarmio yma ers y 1770au, neu ynghynt, ac roeddent dal yma hyd at 1863.
Aeth yr hen dŷ yn adfeilion, ond mae tŷ newydd wedi ei adeiladu ar y safle ers tua 2007.

**Ddolgeiri** (Dolgeiri): Homestead, Y ddol.
Maint y fferm: 2a.0r. 29p. Degwm: 5s o ddegwm

Dengys Map y Degwm mai lle bach oedd Dolgeiri gyda'r buarth ar unig gae yn mesur "one acre, 3 roods and 9 perches". Adeg hynny roedd yn perthyn i Sophia Jocelyn, spinster, of Bath. William Wynne oedd y deiliad, ac wedi'i gofrestru'n ddall ar ôl cael y frech wen. Roedd ei fab John a'i ferch Jane yn byw yno gydag ef yn 1841. Mae'r tŷ a'r adeiladau yn adfeilion erbyn hyn.

**Ty Isaf** (hen enw ar Tegfan): Homestead and garden, Cae tan y fynwent, Drull.
Maint y fferm : 5a. 2r. 3p. Degwm: 7s

Ar un adeg, hwn oedd y tŷ isaf yn y llan ond, yn ddiweddarach, fe adeiladwyd Tŷ'r Ysgol ychydig yn is i lawr. Tegfan yw enw'r bwthyn yma erbyn heddiw. Adeg Map y Degwm roedd yn perthyn i Sophia Jocelyn, Bath. Evan Davies, o hen deulu adnabyddus "Y Stones", sef teulu a oedd yn adnabyddus am dori cerrig, oedd y deiliad, ac yn byw yno gyda'i wraig Ann. Dywedir bod Owen Davies, nai i Evan Davies a ddaeth ato i fyw yn ddiweddarach, hefyd yn ffermio ychydig o dir ar yr ochr uchaf o'r ffordd , rhywle rhwng Dolfadyn a Bryn Clochydd.

**Hendre** (Hendre Fawr): Homesteasd, garden etc., Cae llegen, Y ddol, Cae yr (ir), Ddol fain, Wood adjoining, Ddol fain, Cae bach, Pont yr hedyn, ditto, Bryn coel, Cae gwyn, Bryn coch canol, Bryn coch uchaf, Waen gyd, Ffridd faen, Ffridd y Foty, Ffridd y foyl (foel), Ffridd isaf,

Ffridd Uchaf,Ffridd isaf, Ffridd Bryn y Buckley, Cae hir, Cae coch, Cae brwyn, Cae y sgubor, Ffridd draw, Cae bach, Werglodd, Cae y sgybor.
Maint y fferm: 166a. 0r.30p. Degwm £8 7s. 8c.

Yn 1841 roedd yr Hendre yn perthyn i Morris Owen a oedd yn byw yno gyda'i wraig Elizabeth a'u naw plentyn. Bu'r teulu Owens yn gysylltiedig a'r lle am tua dau gant a hanner o flynyddoedd. Arferai Ffrith y Foty berthyn i le bach o'r enw 'Foty', a adnabyddwyd fel 'Foty Newydd' yn ddiweddarach, a oedd yn sefyll rhwng yr Hendre a gwaelod allt Bron Rhedyn. Arferai Ffridd Bryn y Buckley berthyn i dyddyn Bryn Bwcle lle roedd yna dri tŷ bychan sydd bellach yn dadfeilio.

**Cae'r graig:** Clwt Cae'r Graig

Ar Fap y Degwm roedd y clwt tir yma, a oedd yn acer o faint, yn perthyn i Thomas Roberts a'r deiliad oedd Samuel Owens o fferm gyfagos. Roedd dau fwthyn o'r enw Tai Cae'r Graig gerllaw. Yn ôl hanes lleol, gan bod Samuel Owens wedi gwneud merch o un o dai Cae'r Griag yn feichiog, adeladodd dŷ arall yno iddi hi a'r baban, ar draws y ffordd i'r ddau gwreiddiol, a rhoi yr acer tir i'w theulu i'w defnyddio. Yn ddiweddarach roedd yr acer o dir yma yn perthyn i'r Capel a godwyd yno.
Maint y clwt: 1a. 1r. 15p. Degwm: 2s.9c.

**Tyddyn Uchaf:** Homestead and garden, Bryn y cae newydd, Cae gwyn, Gron yr ?, Ffridd cyffyle bach, Gweglodd y ffridd Owen, Ffridd wen, Ffridd cyffyle uchaf, Ffridd fawnog, Y ddalfa ynal, Ffridd newydd uchaf, Y bryn Michael, Y bryn mawr, Y ddalfa pella, Bryn coch, Yr eithin, Y cae brwyn, Cae yr drws, Cae y llonan, Boch nant, Bodnant isaf, Cae newydd, Wood in cae newydd, Y ddol hir, Cae Megan bach, Cae Megan uchaf.
Maint y fferm: 209a. 2r. 2p. Degwm: £11. 1s. 0c.

Yn 1841 roedd Tyddyn Uchaf yn perthyni i Thomas Roberts a'r deiliad oedd Samuel Owens a oedd yn byw yno gyda'i fam, dau frawd a dwy chwaer ar y pryd. (Ganed 11 o blant i rieni Samuel Owens i gyd). Aelod o deulu'r Owens sydd yn perchen y lle hyd heddiw.

**Cae Coed**: Homestead and Garden, Cae tan y ty, Cae llydan, Cae y ffynnon, Cae bach, Cae Thomas, Ffridd garreg ola, Ffridd arw, Ffridd uchaf, Ffridd wair, ? ? Thomas Owen, ? ? Tyddyn Uchaf, ? ? Waen, Bryniau Mawr, Bryniau Bach, Cae yn y coed, Hen ddyddyne, Wern galch, Hen ddyddyne canol, Hen ddyddyne, Wern galch bach, Y ddol bach, Waen gron, Cae rhedyn, Sofl haidd, Rofft y coed a cae yn y coed, ? newydd, Cae yn y coed bach, Wyddfydd pen y palmant, Wyddfydd lan y ffordd, Wyddfydd bach, Wyddfydd odditan yr eithin, Erw punog, Cae bachan uchaf, Cae bachan isaf, Cae glas, Cae tan fron llan, A Quillet.
Maint y fferm: 177a. 1r. 16p. degwm £9. 5s. 9c.

Griffith Jones oedd piau Cae Coed adeg Map y Degwm a Joseph Jones oedd y deiliad. Roedd yn byw yma gyda'i wraig Gwen a'u dau blentyn, Robert a Mary. Erbyn 1861 roedd aelodau o'r teulu Owens yn byw yn y fan yma hefyd ac mae disgynyddion i'r teulu yma hyd heddiw. .
Wyddfydd pen y palmant: tybed os mai cam syllafiad o gwyddfid (honeysuckle) sydd yma.
Palmant = lle gwastad.
Sofl haidd = barley stubble.

**Pen Isaf:** Homestead and garden, Cae pistill, Buarth uchaf, Moel y gaer isaf, Moel y gaer ganol, Moel y gaer uchaf, Ffridd y ffos, Ffridd yr yda, Ffridd fain, Buarth canol, Buarth isaf, Cae harpen, Cae y sgubor, Cae meriog, Pen chweigion bach, Caer garreg, Caer sgubor issaf, Cae cwysog, Cae tan y ffordd, Cae glan rafon, Bryn bach, A garden adjoining Wern.
Maint y fferm: 104a. 3r. 31p. Degwm: £6. 2s. 0c.

Pen Isa, fel mae'r enw'n awgrymu, oedd y ffarm isaf ym mhlwyf Gwytherin.
Perchennog Pen Isa yn 1841 oedd Thomas Hobson, Lerpwl. Yn byw yno roedd Owen a Jane Williams a'u pedair merch Jane, Anne, Eleanor a Margaret.

Mae enwau diddorol iawn i rai o'r caeau yma, yn awgrymu bod caer Rufeinig wedi bod yno ar ryw adeg, yn enwedig gan bod yna ffemydd cyfagos yn dwyn yr enwau Cefn y Castell a Tan y Castell. Gweler: Moel y gaer isaf, Moel y gaer ganol, Moel y gaer uchaf, a Ffridd y ffos.

**Plas Matw:** Homestead, Werglodd, Cae Sion Vaughan, Ddol, Rough in the meadow, Cae y drws, Cae tan y ty, Cae mattw uchaf, Cae bach isaf, Cae mattw isaf, Ffridd isaf, Rood in ffridd isaf, Ffridd y foel isaf, Ffridd foel uchaf, Bryn y ty hen isaf, Ffridd y fotty, Yr hen gottell, Y park uchaf, Y park isaf, Y park bach, Y gwndwn, Cae bach uchaf, Cae y sgybor.
Maint y fferm: 133a. 2r. 17p. Degwm: £7. 7s. 8c.

Dengys Map y Degwm mai perchennog Plas Mattw oedd Thomas Hobson o Lerpwl. Elias Owens oedd y deiliad ac yn byw yno gydail wraig Sarah a llond tŷ o blant (9 i gyd).
Gwndwn neu gwyndwn = tir heb ei aredig.
Cottel =

**Llwyn Saint:** Homestead and garden, Pen y fyches, Ffridd y garreg llwyd, Ffridd wen, Ffridd eithin, Ffridd galch, Ffridd bach, Ffridd porfa, Ffridd uchaf, Ffridd rugog, Ffridd bueytan (?), Bryn bod, Fron bella, Ffridd goch, Fron fawr, Fron bach, Cae hir, Cae y cynich, Fron rhedyn, Ddol bach, Ddol uchaf, Cae adda, Cae hwch, Caeau bychan, Ddol y cornedde, Ddol issaf, Cae bach, Cae yr hayn (?).
Maint y fferm: 147a. 0r. 3p Degwm: £6. 5s. 6c.

Yn 1841 y perchennog oedd y Right Honourable Lord Newborough a'r deiliad oedd John Williams a oedd yn byw yno gyda'i wraig Mary. Eu plant oedd Jane. Edward, John a Samuel. Mae hanes diddorol i gae Bryn Bod lle ar un adeg roedd tŷ bychan. Honnai hen drigolion y fro mai gwrach oedd yr hen greadures a drigai yno.

**Bryn Clochydd:**: Homestead and garden, Ffridd uchaf, Ffridd coch,Ffridd ?, Ffridd bach, Ffridd faen, Ffridd las uchaf, Ffridd las issaf, Ffridd gyd uchaf, Ffridd gyd issaf, Pant y swch, Ffridd y garreg wen, Ffridd y coed, Ffridd uchaf, Cae glas, Bron felin, Llechwedd, Cae y llonan, Cae tan y ty, Cae rug, Cae'r odyn, Cae'r chwarel, Tyddyn coryn, Y waen goch, Ddol y bony, Y waen goch, Tyddyn coryn bach, Y maes, Woodland, Cae mawr tan y ty, Y dolor du, Cae crwn, Fron brogan, Y waen, Y maes uchaf, Fron bella, Erw pen llydan, Y tir calch.
Maint y fferm: 157a. 2r. 16p. Degwm: £6. 18s. 6c.

Dengys Map y Degwm bod Bryn Clochydd yn perthyn i Lord Newborough. David Griffith oedd y deiliad ac yn byw yno gyda'i wraig Elizabeth a'u plant John, David a Catherine.

**Cwm y tyddyn bychan** ( hen enw ar Cwm Ucha)**:** Homestead and garden, Swch uchaf, Cefn y cwm, Ffridd Foulk and .........?, Hirdir, Ddol tyddyn bach, Hafod baly ?, Ffridd newydd, Y bryn bras, Ffridd y fron, Fron coch, Cae y ffynnon, Ffridd arw, Cae gondwr, Llwyn bedw, Y gondir, Cae cefn y ty, Y gro, Waen wchler isaf ?, Waen llyther llyn ?, Waen llyther nesaf y ffordd, Cae'r lloi, Cae glas, Ffridd low. ?
Maint y fferm: 111a. 2r. 17p. Degwm £4. 15s. 0c.

Y perchennog yn 1841 oedd Lord Newborough. Henry Williams oedd y tenant. Daeth y Williams' yma yn 1817 ac maent dal yma hyd heddiw a bellach yn perchen y lle.

**Tyddyn y Cwm** (hen enw ar Cwm Canol) Homestead and premises, Ffridd llether, Cae moel, Waen goch, Cae tan y llwyn, Dryll y geiniog, Hirdir, Cae'r grunion, Tyr newydd, Llwyn bithel, Waen newydd, Cae'r grunion uchaf, Cae llouau.
Maint y fferm: 129a. 0r. 32p. Degwm: £5.

Lord Newborough oedd perchennog y fan yma hefyd. Y tenant yn 1841 oedd Robert Jones a oedd yn byw yma gyda'i fab Moses.

Mae caeau Llwyn Bithel ar draws y ffordd i weddill y ffarm. Gwerthwyd hwy ar wahan i weddill y lle yn 1968.

**Bryn tan:** Homestead, Pen bryn tan, Rhos ganol, Ffridd porfa, Ffridd newydd, Ffridd waen, Ffridd arw, Buarth, Aber main??, Cae y sgubor, Cwrch bach, Cefn ffos y felin, Y pen ????, Cae tan y rhiwie, Ddol y felin, Wood, Ddol gryn geytin (?), Y wern bach, Dolydd olchfa, Tir melyn, Woodland, Y tir gwyn isaf, Ddol pentre du, Pentre du isaf, Pentre du uchaf, Pentre du bach, Woodland at pentre du, Tir gwyn uchaf, Pen cnwc, Cnwc pella, Cnwc ganol, Ffridd isaf.
Maint y fferm: 134a. 0r. 34p. Degwm: £6.

Dengys Map y Degwm bod Bryn Tân yn perthyn i Sophia Jocelyn, aelod o deulu bonheddig o Bath. Y deiliad ar y pryd oedd y gŵr gweddw Robert Williams a oedd yn byw yno gyda'i ferch fach 6 oed ac amryw o weision. Mae cae Ddôl y felin yn cyfeirio at gae i lawr ar lan yr afon lle safai'r hen felin flawd ac hefyd yr odyn. Roedd Cae Ffôs y felin ar draws y ffordd i'r felin, ychydig yn uwch i fynu. Roedd y Dolydd Olchfa yn cyfeirio at man lle roeddent yn golchi'r defaid cyn eu cneifio. Roedd Caeau Pentre du yn mynd i fynu o'r felin at ffordd Hendre Bach, ac yn un o'i ysgrifau mae Cledwyn Fychan yn awgrymu mae yma oedd y caethweision a oedd yn perthyn i'r gaer Rufeinig ar dir Pen Isa'n byw, gan fod caethweision arfer a byw gyda'i gilydd mewn un cwrdd o'r drefgordd a elwid yn bentref. Roedd Caeau Pen y Cnwc yn ymestyn o giat Bryn Tân tuag at y buarth. Roedd dau fwthyn bach ar dir Pen y Cnwc, ger y giat ffordd. Gelwir yr allt sydd yn rhedeg i lawr heibio giât Bryn Tân yn Allt Pen Cnwc. Roedd coedwigoedd ar dir Bryn Tân o'r enwau Coed Jocelyn sef snam y teulu bonheddig a oedd piau'r lle (yng nhae 162), Coed Sophia (cae 168), Coed John Strange, aelod arall o'r teulu Jocelyn, ac yn ôl pob sôn roedd mwy nag un aelod o'r teulu yn dwyn yr enw bedydd 'Strange' (yng nhae 158), a Coed Salsbury ac hefyd hen chwarel yng nhae 155.

**Bryn Golau**: Homestead and garden, Ffridd uchaf, Ffridd y pant, Ffridd Wen, Ffridd bach Uchaf, Ffridd y ffynnon, Ffridd cefn y ty, Pen y fron, Cae tan y fron, Cae yr wynne, Cae rug, Ffridd bach issaf, Cae haidd, Y clytie, Yr ysgarwen, Yr ysgarwen mawr.
Maint y fferm: 111a. 0r. 6a. Degwm: £3. 4s. 3c.

Yn ôl Map y Degwm y perchennog oedd Robert Williams Wynne, Abergele, a'r deiliad oedd William Jones. Efallai bod enw'r perchennog yn esbonio enw un cae sef 'Cae yr Wynne'. Tybed os mai Yr Ysgaer wen oedd enw gwreiddiol y ddau gae olaf? Ysgaer = trum, cefn, neu 'ridge' yn saesneg, gan bod y caeau yma ar le serth ofnadwy.

**Bryn y bliddir** (Bryn Bleiddiaid): Homestead and garden, Cae mawr, Waen, Cae rhedyn.
Maint y fferm: 8a. 3r. 2p. Degwm: £0. 13s.

Dengys Map y Degwm bod y lle yma yn perthyn i'r Parchedig William Williams, Llanfair, ac mai'r deiliad oedd Ebenezer Hughes a fu farw yno'n fuan iawn wedyn.
Hen dyddyn bach sydd wedi hen ddiflanu ydi Bryn Bleiddiaid. Gelwir yr allt sydd yn rhedeg oddiyno i lawr at y pentref yn Allt Bryn Bleiddiaid. Tybed oedd bleiddiaid i weld oddiyno mewn rhyw oes? Mae'r tir bellach yn perthyn i ffarm Bryn Golau.

**Tu Hwnt i'r Afon** Homestead and garden, Ffridd nant du, Ffridd esyllt, Ffridd bach, Ffridd, A piece open to the river, Ffridd faen, Llechwedd, Clwt eithin, Buarth y cerrig, Swch, Buarth y ty, Cae ffynnon, Bryn gwyn uchaf, Ddol y boul, Bryn gwyn, Cae yr odyn, Land along the river, Y ddol.
Maint y fferm: 85a. 0r. 17p. Degwm:£3. 4s. 3c.

Perthynai Tu Hwnt i'r Afon i William Hanmer Esq. Y tenant oedd Robert Jones, sef yr hynaf o'r tri brawd a anfonwyd yno gan eu tad (William Jones, Merddyn ) i ffarmio'r lle. Roedd cae o'r enw Clwt Eithin yma lle y tyfid eithin er mwyn ei gasglu yn ddyfflwydd oed a'i falu yn fân a'i roi ar fwyd y ceffylau er mwyn rhoi sglein arnynt.

**Dôl Frwynog**: Homestead and garden, Ddol issaf, Llechwedd, Ffridd uchaf, Ddol uchaf, Ffridd Newydd, Clwt tan y building.
Maint y tir oedd 82 acer gyda £1 10c o ddegwm i'w dalu i'r rheithor.

Dengys Map y Degwm bod Dolfrwynog yn perthyn i Evan Jones ac mai'r deiliad oedd David Jones. Mae'n debyg mai bwthyn bach o'r enw Dôl Frwynog Bach oedd y tŷ gwreiddiol gan ei fod yn sefyll ar y ddôl isaf, ger yr afon.

**Tai Pellaf**: Homestead, Ffridd y dorlan goch, Pant gwynn, Cae'r popty, Yr ardd goed, Yr erw, Rough adjoining, Cae pella, Ddorlan hir, Yr ochr eithin, Pant uchaf, Pant issaf, Cae bach, Y Delyn bach.
113a. 3r. 20p. Degwm: £4. 5s 6p.

Y perchennog yn 1841 oedd Evan Jones, a fu'n byw ym Morfa Gwespyr, Fflint. David Wynne o deulu Tŷ Newydd Isaf oedd yn byw yma adeg Map y Degwm gyda'i wraig Jane. Roedd ganddynt bump o feibion, John, William, Robert, Samuel ac Edwin. Aethent i Tŷ Newydd Isaf yn ystod y 1860au lle y bu farw David Wynne yn 1878, ond fe'i claddwyd o Tai Pellaf. Adeiladwyd tŷ newydd yma ar yr un ffurf a Tŷ Newydd Isaf yn 1889au gan ei ail fab William Wynne, ond bu iddo farw y flwyddyn ganlynol. Mae'r hen dŷ i'w weld ar yr ochr dde i'r tŷ newydd.

**Merddyn**: Homestead and garden, Pen uchaf y cae, Cae tan y beudy, Cae tan y ffynnon, Ffridd y genigoli, Yr ardd goed, Ffridd uchaf, Fron, Cae tan y ffordd, Cae isaf, Maen Llwyd, Fron ficen, Maen llwyd bach, Maen llwyd brwnog, Dyffryn brwniog, Dyffryn issaf, Clwt fron Llwyn y Saint, Clwt eithin ddol y bont, Ddol ty'n y coed, Fron ty'n y coed, Ddol yr odyn, Clwt cerrig, Ddol ???, Ddol gwyn, Swch, Moel gydie, Coed moel gydie, Part of moel gydie, A piece above the wood, Croft in Lord Newborough land.
Maint y fferm: 169a. 2r. 8p. Degwm: 149a. 2r. 8p.

Yn 1841 Robert Edwards oedd y perchennog a'r deiliad oedd William Jones.
Roedd Ddôl a Fron Ty'n Coed arfer a perthyn i dyddyn bach Ty'n Coed Pennant (roedd Ty'n Coed arall yn ymyl Cae'r Graig). Enw'r caeau a'r goedwig uwchben Ty'n Coed oedd Moel Gydie. Dywedir bod llwybr yn arwain I fynu trwy'r goedwig o Ty'n Coed at Foel Lwyd. Mae'n debyg mai Foel Lwyd oedd y 'Croft in lord Newborough land' sydd yn ymddangos ar fap y degwm fel cae 563a.

**Llethr**: Homestead and garden, Ffridd isaf, Ffridd faen, Cae main, Cae ty newydd, Hir dir, Ddol isaf, Ddol uchaf, Werglodd, Cae bach, Ffridd cefn y curn, Y dwch.
Maint y fferm: 31a. 2r. 14p. Degwm: £1. 13s. 10c.

Dengys Map y Degwm mai'r perchennog oedd Robert Edwards ac mai'r deiliad oedd William Davies. Dengys Cyfrifiad 1841 bod dau dy yma sef Llethr a Hen dy Llethr. Tra roedd William Davies ail ferch Margaret yn byw yn y tŷ newydd, roedd Robert ag Alice Jones a'u mab John a oedd yn dair oed, wedi symud i fwewn i'r hen dŷ. Wedi i'r Jonesiaid fynd oddiyno i Fryn Iorwerth yn fuan wedyn, ni fu son am neb yn byw yn yr hen dŷ wedi hynny.

**Cornel y fattw**: Homestead, Ffridd uchaf, Ffridd isaf, Cae bach, Cae tan y ty, Cae pella tan y ty.
Maint y fferm: 8a. 1r. 8p. Degwm: 10s

Yn 1841 y perchennog oedd Mary Griffiths, Dinbych, a'r tenant oedd Jane Griffiths. Roeddent yn berthnasau i David Griffith (clwydfardd) sef Archdderwydd cyntaf Cymru.

**Ty'n yr Erw**: Homestead and waste etc., Tir erw.
Maint y lle: 1a. 1r. 13p. Degwm £0. 2s. 6c.

Yn ôl Map y Degwm y perchennog oedd Mary Griffiths, Dinbych, (perthynas i Clwydfardd) a'r tenant oedd David Owens. Am ryw reswm nid yw Ty'n yr Erw yn ymddangos ar y Cyfrifon o dan yr enw yna hyd at 1861.
Roedd melin goed yn gysylltiedig â'r Erw.

**Ty'n y ddôl**: Homestead and garden, Ddol, Cae isaf, Y bwlch, Cae Meredith, Cae pen ty, Buarth, Yr hely duon, Ffridd lom, Waen y burdir, Y coed, Ffridd fawr, Ffridd goch, Ffridd y groesffordd, Hir dir, Hir dir pella. Bryn y slernias, Cae bach, Y Gwynedd.
Maint y fferm: 94a. 0r. 11p. Degwm: £4. 17s.

Dengys Map y Degwm mai y perchennog oedd John Williams ac mai Robert Jones oedd y tenant. Bu teulu Robert Jones yn ffarmio Ty'n Ddol hyd at 1907.

**Bryn Hafod**: Homestead and garden, Swch, Cae mawr, Cae y bont, Cae y popty, Cae caled, Coed y cae caled, Cae glas, Weirglodd, Cae bach, Cae y pistill, Fron fawr isaf, Fron fawr uchaf, Ffridd uchaf, Ffridd y mynydd, Ffridd Waen, Bank u athen, Ffridd pen y bedd, Bryn y weirglodd.
Maint y ffarm: 82a. 1r. 24p. Degwm: £4. 6s.

Ar Fap y Degwm, y perchennog oedd David Jones a oedd yn byw yno. Safai hen dŷ Bryn Hafod ar yr ochr chith i'r tŷ a'r adeiladau presenol a adeiladwyd tua 1853. Nid oes dim ar ôl o'r he dŷ bellach.

**Ty'n y Bryn**: Homestead and garden, Ffridd y mynydd, Ffridd y mynydd pella, Werglodd, Cae pella, Erw, Cae clover, Llwyn Philip uchaf, Cae gwyn, Cae mawr, Batting pella, Y ddol, Cae yr Hendre, Llwyn Philip isaf, Plantation, Cae y bryn, Cae Llwyd, Hwylfa, Rough.
Maint y fferm: 57a. 0r.34p. Degwm:£3. 5s.

Dengys Map y Degwm mai y perchennog oedd Elizabeth Jones, Pen Porchell, Llansannan, ac mai William Williams (mab i William Cadwaladr), oedd y tenant. Daeth y teulu yma rywbryd yn ystod y ddeunawddfed ganrif, gan newid eu snam o Ellis, i Cadwaladr, i Williams. Bu'r teulu yna yno hyd at ganol yr 1850au. William Williams, Cwm Uchaf, oedd yn gyfrifol am adeiladu'r tŷ presenol yn 1939/40, ar gyfer ei fab, W. H. Williams.

**Cwm Isaf**: Homestead and garden, Cae gwenith, Ffridd, Ffridd bach, Drull pen llydan, Llwymyn odyn, Cae y griolen, Y fron bella, Y fron ceffyle, Dryll Llwyd, Y dduallt, Ddol Thomas David, Cae bach isaf, Cae tu hwnt yr afon, Cae dyr hen fatting, Yr hen fatting, Y ddol fain, Cefn y maes isaf, Y ddol hir, Wood in Ddol hir, Cefn maes uchaf, Erw gam, Coed nant yr erw gam, Cae bach uchaf, Cae hir.
Maint y fferm: 58a. 2r. 26p. Degwm: £3. 7s.

Yn 1841 y perchennog oedd Elizabeth Jones, Pen Porchell, ar deiliad oedd Daniel Jones, a oedd yn enedigol o Gerrig y Druidion.

**Mill tenement** (Fein Isa): Homestead, Gordds yr odyn, Cae yr eithin, Clwt y felin, Clwt canol, Clwt uchaf, Woodland, Bryn y castell.
Maint y lle: 7a. 1r. 27p. Degwm: £0. 14s.

Dengys Map y Degwm bod y lle yn perthyn i John Jones a Jacob Jones "joint proprietors". Jacob Jones a'i deulu oedd yn byw yno.

**Bont Garreg** (part of): Cae y graig, Cae y Llwymed.
Maint y lle: 7a. 3r. 1p. Degwm: £0. 14s. 6c.

Y perchennog yn 1841 oedd Thomas Fitzhugh, Plas Power, Wrexham. Yn byw yno roedd William Williams. Nid oes sôn am unrywun yn byw yma wedi hyn ond mae olion y lle dal i'w gweld yn y tir. Ym mis Chwefror 1990, yr un diwrnod a llifogydd Tywyn, ysgybwyd y bont a oedd wedi rhoi enw i'r lle hwn ymaith gan y dŵr.

**Tyddyn David** (Tyddyn Dafydd): Homestead and garden, Cae tan y ty, Ddol, Yr erw, Cae pig, Cae hir, Cae gwyn, Cae bach, Cae ty cefn ty, Cae coch, Cae coch pella, Ffridd, FFridd isaf, Ffridd uchaf.
Maint y fferm: 53a. 1r. 28p. Degwm: £2. 18s.

Yn 1841 y perchennog oedd Richard Woodward, Winsford, Cheshire. Y tenant oedd Robert Roberts a oedd yn byw yma gyda'i wraig Grace a'u 7 plentyn. Aethent oddiyma i Fryniog Bach yn 1851 lle ganed yr 8fed plentyn. .

**Dolfadyn**: Homestead and garden, Cae sgybor, Y maes, Y ddol isaf, Y ddol, Y ddol uchaf, Yr henfrith, Rough land in henfrith, Y fron isaf, Ffridd y bank, Ffridd waer, Ffridd hen y llan, Dryll naw holled, Yr hwlfa, Ffridd eithin, Ffridd Llafrwyn, Fridd goch, Ffridd y defoil, Fridd pella, Ffridd cefn y fotty, Ffridd tan y fotty, Ffridd bont, Y fron bach, Y fron, Cae bach, Cae hir, A quillet in Waen goch fawr.
Maint y fferm: 151a. 3r. 2p. Degwm: £5. 17s.

Adeg Map y Degwm y perchennog oedd Owen Owens a'r tenant oedd Evan Jones.
Roedd Ffridd cefn y fotty, a Ffridd tan y fotty, yn cyfeirio at fwthyn bach o'r enw Foty sydd bellach wedi diflanu ond am ei olion yn y ddaear. Cyfeirir at y cae lle safai Foty erbyn heddiw fel Cae hofel.
Llafrwyn = bulrushes

**Tyddyn Deicws**: Homestead and garden, Cae tan y ty, Cae bach, Gadles, Waste along the fridds, Ffriddoedd bach, Ffridd gron, Ffridd bach, Ffridd rugog, Ffridd wastad, Ffriddoedd bach, Ffridd bellaf, Yr hen ffridd, Bank yr hen ffridd, Rofft y clover, Coed, Y faches, Y gweninger, Ffridd y clover, Cae suren, Cae haidd, Buarth y ffordd, Waen du, Erw y gwydde, Ddol y metti, Cae'r ffynnon, Cae William Morris, Maes y llan isaf, Cae glas, A quillet in 246 (os yw hwn yn gywir, lle bach yn Cae Coed).
Maint y fferm: 121a. 3r. 28p. Degwm: £4. 15s. 6c.

Yn ôl Map y Degwm roedd y lle yn perthyn i William Frederik Jones Bage Esq., Chester, a'r deiliad oedd John Jones. Roedd cae yma o'r enw Y gweninger, sef cae a ffosydd dyfn oddiamgylch lle magwyd cwningod i'w bwyta gan y teulu ers talwm.

**Pen y Graig**: Homestead and garden, Erw bach, Y gottel bach, Y cae bach, Waen, Cae'r pistyll, Ffridd isaf, Ffridd ganol, Ffridd uchaf, Ffridd y cwt, Ffridd isaf.
Maint y fferm: 14a. 0r. 13p. Degwm: £0. 8s.

Yn 1841 roedd y lle yn perthyn i Anne Jones, Llanrwst. Y deiliad oedd William Hughes. Yn byw gydag ef roedd ei wraig Catherine a'u plant. Yn ystod y ganrif ddiwethaf prynwyd rhai o ffrithoedd Ty'n LLan at Pen y Graig.

**Public House**: Ffridd uchaf, Ffridd isaf pen y llwyn, Ffridd tan Pen y Graig, Woodland, Ffridd isaf, Ffridd bach, Waen y plu, Clwt Sion Evans, Cae Ty Du, Cae y llan, Pastureland along the river, Erw ben gam, A quillet in no. 760 (Ffrith tan Pen y Graig).
Maint y fferm oedd: 43a. 1r. 28p. Degwm: £2.4s.4c.

Yn 1841 roedd y lle yn perthyn i'r Parch. Robert Phillips a Robert Edwards, Bettws. Henry Jones oedd y tenant. Mae hanes diddorol i Waen y Plu, sydd yn sefyll rhwng y Tai Cyngor a Ty'n yr Erw.

**Bryn Iorwerth**: House, Y cae tan y ty, Cae pella, Nurse.
Maint y fferm: 3a. 2r. 31p. Degwm: £0. 7s. 3c.

Y perchennog yn 1841 oedd Samuel Edwards, Dinbych, Yn byw yno roedd Robert Evans a'i wraig, Jane, a'u plant Evan a Jane. Bu'r lle yn ei dro yn perthyn i John Copner Wynne Edwards, Sgwiar Nantglyn, a'i fab Alun Elured Wynne Edwards. Y Nurse (nursery) mae'n debyg, oedd y llethr lle tyfid coed ar un adeg.

**Gorse** (Gors): House and garden etc., Cae cefn y ty, Rhos meadowland, Ffridd newydd.
Maint y fferm: 16a. 2r. 13p. Degwm: £0. 8s. 3c.

Mae un cyfeiriad at y Gors fel Llawr Cwm Bach. Roedd safle Llawr y Cwm dros yr afon ym mhlwyf Llanfair. Felly, er bod Llawr y Cwm a'r Gors yn agos iawn i'w gilydd, roedd yr afon a redai rhyngddynt yn terfynu rhwng y plwyfi, yn eu gosod mewn dau wahanol blwyf. Ar Fap y Degwm y perchennog a'r deiliad oedd John Williams. Daeth yma gyda'i wraig Ann a'r plant yn ystod y 1830au o Tyddyn Bach a buont yn byw ar y plwyf am gyfnod, ond fel y dengys Map y Degwm, y nhw oedd pia'r lle erbyn hynny.

**Bron yr Haul**: Homestead, garden etc., Y bank, Cae tan y ty, Cae bach, Cae'r big, Cae pistyll, Y Waen, Y ffridd fain, Ffridd ganol, Ffridd pella.
Maint y fferm: 44a. 1r. 35p. Degwm: £1.

Y perchennog yn 1841 oedd William Williams a oedd hefyd yn byw yno. Elizabeth oedd enw ei waraig, a'r plant oedd John, Jane a William. Ni fu'r teulu yma yno'n hir.

**Pant y Foty**: Homestead, garden, etc., Ffridd y Waen llydan, Y Gister las, Ffridd tan y Begley, Ffridd ganol, Ffridd y graid, Ffridd cefn ty, Y ddol, Y buarth.
Maint y fferm: 35a. 2r. 35p. Degwm: £0. 15s. 9c.

Y perchennog yn 1841 oedd David Owen a oedd yn byw yno gyda'i wraig Grace a'i plant. Daethent yno yn dilyn marwolaeth rhieni David Owen. Bu'r lle ym mherchnogaeth y teulu tan yr 1870au.

**Pant y Foty Bach**: Homestead and garden etc. Bank, Tan y drws.
Maint y fferm: 4a. 2r. 25p. Degwm: £0. 2s. 8c.

Y perchennog yn 1841 oedd William Owen a oedd hefyd yn byw yno. Adeiladwyd Pant y Foty Bach i William Owen, mab hynaf Pant y Foty, wedi iddo briodi a Jane o Lanrwst. Cawsant lond y tyddyn bach o blant, tra bu William Owen yn gweithio fel cipar.

**Glebe**: House and Garden and yard etc., Gwaun y plu, Bryn Bleddyn, Cae wrth gefn y sgubor, Bryn yr odyn, A small piece at the bottom of Bryn yr Odyn, Y ddol, Waste adjoining garden, Cae wrth pen y ty, A quillet in Cae glas, A Quillet in Maes y Llan isa, A quillet in Maes y Llan Uchaf, Erw tan y ffordd, A quillet in a field called Dryllan, A Quillet in a field called Ddery Erw, Croft at the Church yard.
Maint y Clastir: 21a. 3r. 36p. Degwm £3.

Ar Fap y Degwm roedd y Clastir yn perthyn i'r Parch. Lewis Rowland. Yn byw yn y rheithordy ar y pryd fel rheithor Gwytherin oedd y Parch John Williams.
Mae hanes diddorol i Waen y Plu, sef cae rhwng Ty'n yr Erw a'r Tai Cyngor: Hen arferiad yn yr ardal oedd rhoi cangen neu ysbrigyn o goeden gollen i fachgen a oedd wedi colli ei gariad. Mae'n debyg i lawer o'r brigau gael eu planu yn y cae yma dros y blynyddoedd gan lanciau anffodus, ac yna wedi iddynt dyfu yn goed roedd y plu, sef y cenawon cyll neu'r cywion

gwyddau, fel y'i gelwir, i'w gweld. Dyma rai o hen benillion sydd wedi goroesi am y draddodiad:

Myfi ydyw'r Prydydd afiach
Ni chelai mom cyfrinach.
Rwi'n wan fy llais am deg ei llun
A aeth i galyn gelach.

Ni does na Gwâs na Bachgen
Na Morwyn lysti lawen
Heb roi i'm llaw yn ddigon llon
Dan gellwair, ffon o Gollen.

Pan gaffwi'r ffyn yn gyfa
Yng waen y plû mi a'i plana.
Os coeli'r chwedl rhyw hên Wrâch,
Pob ffonnig bach a ffynna.

**Ty Newydd y Pennant**: Homestwad and garden, Cae bach, Werglodd, Cae'r wern, Hen ffridd, Werglodd uchaf, Ffridd bach, Ffridd las issaf, Ffridd las Uchaf, Ffridd fain, Ffridd uchaf, Rheyol, Land along the road, Cae brych, Ddol bach, Waste near the river, Ddol newydd, Pasture land along the river, Cae crwn, Pwll crwnch, Cae person, Pant Ellen, A quillet in no. 78 (sef Cae mawr tan y ty ar dir Bryn Clochydd).
Maint y fferm: 124a. 2r. 32p. Degwm: £5.

Dengys Map y Degwm bod y lle yn perthyn i'r Parch. Robert Phillips ac mai Anne Williams oedd y deiliad. Gweddw Robert Williams, a fu farw yma yn 1822 oedd Anne, a bu'n ffermio'r lle gyda cymorth gweision.
Cae Person: Mae son bod ryw reithor o Eglwys Gwytherin wedi bod yn perchen tir rhywle yn y Pennant mewn rhyw oes, efallai mai hwn oedd y fan.

**Chapel**: House, garden and croft.
Maint y lle: 2r. 7p. Degwm: 8c.

Perchennog y lle yn ôl Map y Degwm oedd Samuel Edwards Esq., Dinbych. Y deiliad oedd David Jones. Mae'r capel, a adeiladwyd gyntaf yn 1815, yn sefyll drws nesaf i Bryn Iorwerth a Samuel Edwards, yn ôl Map y Degwm, oedd piau y ddau le yn 1841. Ail-adeiladwyd y capel ar yr un safle yn 1855, pryd y prynwyd y safle ar ei gyfer gan un o deulu Tyddyn Ucha a rhoddwyd y tir ar gyfer y fynwent yn 1852 gan deulu Merddyn. Gan na adeiladwyd y Tŷ Capel fel yr adnabyddwn o heddiw tan 1912, mae'r debyg bod y cyfeiriad at 'house' yn sôn am dŷ bach wrth ochr y lle gan bod yna gyfeiriadau at fobl yn byw yn y 'chapel house' yn gynt na 1841

**Ty'n y llidiart**; un cae di-enw.
Maint y cae: 3a. 1r. 37. Degwm: 2s. 8c.

Y perchennog, a oedd hefyd yn byw yno, oedd David Wynne. Yn 1841 roedd David Wynne, a aned yn Llanfair T. H., yn 65 oed ac yn byw yno gyda'i wraig Jane, 50 oed, a'u merch Gwen a oedd yn 12 oed.
Mae rhai cyfeiriadau at y lle yma i lawr fel Cefn. Yr esboniad yw am fod y lle yn ran o randir Cefn Bryn Siôn, a oedd yn ymestyn o Cefn Isa, Llangernyw i fynu ar Pen y Cefn, Gwytherin.

Gwelwn o'r uchod bod tua 44 o wahannol dir-feddianwyr yn perchen tir yng Ngwytherin, ac nad oedd yr un Stad benodol yma. Dim ond ryw 13 o'r lleoedd oedd yn cael eu ffarmio gan eu perchnogion.

Am fwy o wybodaeth am blwyf Gwytherin, gweler y llyfr:  Cartrefi Gwytherin.

Heulwen Ann Roberts, Gwytherin, 2015.